

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ebrill 16eg, 2015 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor W Davies, (Is Gadeirydd); Gwilym M Thomas; Trefor Wyn Jones; Dafydd Williams; Naomi Jones; Aled Lloyd Evans; Thomas Prys Jones; William Ifor Hughes; Margaret Griffith a'r Clerc.

Cyngor Gwynedd; Diogelwch y Ffyrdd, Chwilog, llythyr oddi wrth Beiriannydd Traffig, Cyngor Gwynedd. Cais gan drethdalwr i wneud sylwadau. Llythyr ydoedd am loriau mawr yn dal yn agos iawn at y wal rhwng siop Mr Povey heibio Madryn Villa wrth geisio osgoi'r twmpathau rheoli cyflymder. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd derbyn cynnig y swyddog o Gyngor Gwynedd i gael cyfarfod ar y safle i drafod beth y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa. Y Clerc i wneud y trefniadau am y cyfarfod, Cyngorwyr Ward Llanarmon, Mr Elwyn Jones, Islwyn (trethdalwr) a'r swyddog.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Anwen Jones; Marian Evans; Alwen Evans; Brian W Ifans; Elis Gwyn Jones.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mawrth 5ed, 2015 o'r Cyngor.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Y Cyngorydd Trefor Wyn Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 17 ar y rhaglen waith sef cais am nawdd ariannol gan Urdd, Ysgol Chwilog.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Rheoleiddio; Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd; loriau yn parcio yn y ffordd ger Golchdy Afonwen. Penderfynwyd gofyn am drafodaeth ar y safle pan fydd swyddog Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd yn Chwilog yn trafod diogelwch y ffyrdd.

2. Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned, dŵr yn sefyll yn y ffordd ger Glasfryn Fawr, Pencaenewydd. Mae'r gwaith wedi'i drefnu a'i ychwanegu at raglen waith Cyngor Gwynedd i geisio lleihau'r broblem. Penderfynwyd derbyn.

3. Trafnidiaeth a Gofal Stryd; Archwiliwr Gwaith Strydoedd, polion BT yn ardal Llanybi. Derbyniwyd yr ymddiheuriad am yr oedi yn symud y polion. Deallir bod y gwaith wedi'i wneud erbyn hyn.

4. Rheoleiddio; Gwasanaeth Cynllunio; newid yn y gwasanaeth cynnig cyngor cyn gwneud cais cynllunio o Ebrill 1af, 2015. Derbyniwyd er gwybodaeth ac y bydd cost i'r gwasanaeth newydd fydd ar raddfa sy'n unol â maint a natur y cais cynllunio.

5. Rheoleiddio; Gwasanaeth Cynllunio, rhannu coedwig yn lleiniau mwynderol yng Nghoedwig Ynys Creua. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd y Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r ymholiad/cwyn.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned:

1. Cais rhif: C15/0191/41/LL –Codi estyniad unllawr cefn; Fferm Gell Uchaf, Rhoslan. Er gwybodaeth yn unig. Dyddiad cau cyflwyno sylwadau oedd Mawrth 30ain, 2015.

2. Cais rhif: C15/0227/41/YA – Creu 130m newydd o ffordd goedwigaeth ac ail wynebu ffordd bresennol; Coedwig Brychyni Woodland, Cennin. Unwaith eto, er gwybodaeth yn unig. Dyddiad cau cyflwyno sylwadau oedd Mawrth 31ain, 2015.
3. Cais rhif: C15/0320/41/LL – Diddymu amodau 2,3 a 4 o ganiatad cynllunio C10D/0040/41/LL er mwyn caniatâu defnyddio uned wyliau presennol fel annedd; Capel Brynbychau, Chwilog. Penderfynwyd nad oedd dim gwrthwynebiad gan y Cyngor yma.
4. Cais rhif: C15/0333/41/LL – Codi estyniad cefn unllawr; 5 Cwrt Carrog, Chwilog. Heb dderbyn gwybodaeth am y cais yma. Y Cyngorwyr i anfon sylwadau at y Clerc ar ôl gweld y cynlluniau ar y we.
7. Llywodraeth Cymru; Ymateb i'r Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol, angen ymateb erbyn Ebrill 28ain, 2015. Wedi derbyn un ymateb:
yr angen i fod yn uchelgeisiol – mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy wedi ymateb i'r angen hwn (prosiectau cymunedol fel sefydlu safle'r we / arian ar gyfer lloches bws, ac yn y blaen);
bod yn agored – manylion a gwybodaeth ar y wefan; enghreifftiau o'r cyhoedd yn dod i gyfarfodydd; crynodeb misol yn Y Ffynnon; materion cymunedol ar y rhaglen waith bob mis;
gwasanaeth cyhoeddus – nifer o'r cyngorwyr yn rhan o'r arferiad hwn;
safonau – agwedd broffesiynol y cyfarfodydd (datgan diddordeb; trefn y cyfarfodydd; adolygu polisiau perthnasol);
gwasanaethu mwy nag un Cyngor – amherthnasol ac mae presenoldeb y Cyngorydd Sirol yn gallu bod yn fanteisiol.
 Penderfynwyd derbyn y sylwadau uchod ac ychwanegu bod democratiaeth leol cefn gwlad yn cael ei wanhau ac anfon yr ymateb ymlaen.
8. Cyfoeth Naturiol Cymru; Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, cyfarfod ym Mhwlheli ddydd Iau Mai 14eg rhwng 2 a 7pm. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngorydd Elis Gwyn Jones fynd i'r cyfarfod os yw yn gallu mynd.
9. Sun Edison; Ffermydd Solar Arfaethedig Afonwen a Rhosgyll Fawr. Derbyniwyd er gwybodaeth. Bydd mwy o drafod ar fanteision cymunedol ar ôl i'r cwmni wneud y ceisiadau cynllunio.
10. Un Llais Cymru; angen cynigion ar gyfer Cynhadledd Flynyddol 2015 erbyn Ebrill 30ain. Nid oedd y Cyngor yma am wneud cynnig.
11. Llywodraeth Cymru; gwybodaeth am safle treftadaeth yn yr ardal; mynediad am ddim ar Ddydd Gŵyl Dewi a mynediad am ddim i blant ddydd Sul, Mai 17eg, 2015 i Gastell Cricieth. Derbyniwyd er gwybodaeth.

12. Materion yn y gymuned.

Rhoslan a'r Ynys

Llanystumdwy

1. **Lôn gefn Llanystumdwy i Gricieth.**

Angen glanhau'r dail ar ochor y ffordd o dro Ty Newydd i Dy Newydd Cottage.

Y ffosydd angen eu glanhau yr holl ffordd i Gricieth. Penderfynwyd gofyn i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd wneud y gwaith.

2. un o drigolion rhes dai Tan yr Erw yn cwyno bod ceir yn gor-yrru ar y lon gefn rhwng Cricieth a Llanystumdwy (yn enwedig yr allt rhwng Pig-yr-erw a mynedfa Pysgotfa Bron Eifion). Mae'n deuluoedd yn byw yn yr ardal hon. Penderfynwyd gofyn i swyddog adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd gael golwg ar y sefyllfa.

3. angen cot o baent ar y blwch postio o flaen Neuadd Y Pentref. Deallir bod bwriad i gael blwch postio newydd maes o law. Derbyniwyd.
4. Gwaith BT ar y ffordd gefn rhwng Llanystumdwy a Chricieth. Gan nad oedd y Cynghorydd Elis Gwyn Jones, oedd wedi gofyn am i hwn gael ei roi ar y rhaglen waith, yn bresennol, gofynnwyd i'r Clerc ofyn am fwy o wybodaeth gan y Cynghorydd cyn cymeryd camau ymhellach.
5. Canllaw ar y llwybr Clawdd Llanw am Dy'n Morfa, ochr isa i'r rheilffordd wedi'i ddifrodi. Penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.

Chwilog

Cyflwr y ffordd rhwng Cae Brwyn a Groeslon Dilwyn. Penderfynwyd gwneud cwyn i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

Llangybi

Mae angen arwydd megis 'dim sat nav' ymhen ffordd Rhosgo ger Ynys Creua - mae lyri anferth wedi creu llawer mwy o lanast ymhen ucha'r ffordd nag a wnaeth un o'r blaen tua dwy flynedd yn ôl. Penderfynwyd gofyn i'r swyddog o Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd gael golwg pan fydd yn yr ardal.

Pencaenewydd

13. Materion heb gael ymateb iddynt.

14. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2015 ymlaen.

- a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
- b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
- c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
- ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
- d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
- dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.

Penderfynwyd gofyn i Atkin Groundworks Ltd., Llanarmon; Mr Clifford Hughes Llangybi a Mr W P Owen, Chwilog am brisiau am wneud y gwaith. Yn ychwanegol gofynnwyd am bris tair blynedd am wneud y gwaith. Bydd angen copi cyfredol o **yswiriant** angenrheidiol i wneud y math yma o waith. Bydd angen y prisiau, bob llwybr wedi'i brisio ar wahân, mewn amlen gyda llwybrau arno a'i anfon i gyfeiriad y Clerc erbyn 12pm, ddydd Gwener, Mai 1af, 2015.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

